# Y Ddolen

## Papur

Bancyfelin, Cana, Elim, Heol Awst a'r Priordy

Gofalaeth Caerfyrddin
a Bancyfelin

**Dy orsedd, Arglwydd Dduw, a bery**
**pan syrth gorseddau byd a'u bri;**
**fe saif dy deyrnas, a chynyddu**
**nes delo pawb i'w haddef hi.**

**Caneuon Ffydd: 45**

**John Ellerton (1826-93) Cyf. R D Roberts (1912-93)**

## Rhifyn 3
## PAPUR MEHEFIN 2026

# Gair gan ein Gweinidog

## Ynys

***LLONGYFARCHIADAU*** i bawb o blant a ieuenctid yr ofalaeth a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar Ynys Môn ac yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir cyn hynny. Da iawn bawb!

Tyrrodd miloedd o bobl o bob oed dros y Fenai i Ynys Môn ar gyfer yr Eisteddfod.



Ynys. *"Nid yw neb yn ynys" meddai John Donn.* Mae ynys wedi'i hamgylchynu gan ddŵr, ac yn sefyll ar wahân i'r tir mawr. O bell, gall ymddangos yn brydferth, heddychlon a chryf. Ac eto, mae hyd yn oed yr ynys fwyaf prydferth yn dibynnu ar bethau y tu hwnt iddi ei hun. Mae'n dibynnu ar law am ddŵr, haul am dyfiant, gwynt am newid, a'r môr sy'n ei hamgylchynu. Mae llawer o bobl yn ceisio byw fel ynysoedd ac yn argyhoeddi ein hunain nad oes angen neb arnynt. Eu tuedd yw dweud *"Gallaf gario fy maich ar fy mhen fy hun. Gallaf ymladd fy mrwydrau ar fy mhen fy hun. Gallaf ddelio â'm poen ar fy mhen fy hun."* Ond ni chawsom ein creu ar gyfer unigedd.

Mae profiadau bywyd yn gallu ein gwthio tuag at unigrwydd. Gall siom, poen ac ofn ein troi'n ynysoedd. Rydym yn tynnu'n ôl oddi wrth bawb oherwydd ein bod yn meddwl bod pellter yn ein hamddiffyn. Ond yn aml, mae gwahanu'n creu gwacter dyfnach.

Nid yw hyd yn oed coed ar ynys yn tyfu ar eu pennau eu hunain. Mae eu gwreiddiau'n ymestyn i'r un ddaear. Mae adar yn hedfan atynt. Mae'r tonnau'n cyffwrdd â'u glannau. Mae bywyd yn cysylltu â bywyd.

Felly hefyd gyda ni. Mae angen ein gilydd arnom. Mae angen cyfeillgarwch, caredigrwydd, tosturi a chymuned arnom. Gall rhywun sy'n sefyll ar ei ben ei hun flino, ond gall pobl sy'n sefyll gyda'i gilydd godi ei gilydd pan fo gwendid yn cydio ynom. Mae pobl o'n cwmpas sy'n edrych fel ynysoedd heddychlon ar y tu allan, ond stori arall yw'r storm ar y tu mewn iddynt. Onid yw'r wên ar y wyneb yn medru cuddio'r dagrau yn y galon?

Efallai taw chi yw'r ynys honno heddiw. Os felly, dyma neges i chi: nid yw neb wedi anghofio amdanoch. Nid ydych y tu hwnt i gyrraedd. Mae cariad

yn dal i groesi cefnforoedd. Mae gobaith yn dal i gyrraedd glannau. Mae gras yn dal i gyrraedd fel llong yn y pellter.

Ac i'r rhai sy'n gweld eraill wedi 'u hynysu mewn unigrwydd, byddwch yn bont. Byddwch yn llaw estynedig. Byddwch yn llais sy'n dweud, *"Nid oes rhaid i chi sefyll ar eich pen eich hun."*



***BOED*** i bob calon beidio â bod yn ynys unig, ond yn harbwr croesawgar.

**Gweddïwn**



Arglwydd Dduw,

Maddau i ni am yr adegau pan fuom yn adeiladu muriau o amgylch ein calonnau ac yn byw fel ynysoedd, wedi ein gwahanu oddi wrthyt Ti ac oddi wrth eraill.

Maddau i ni am yr adegau pan y bu i ni anwybyddu'r rhai oedd yn unig, yn sâl neu mewn angen am anogaeth.

Rho i ni lygaid i weld y rhai o'n cwmpas, calonnau sy'n barod i ofalu, a dwylo sy'n barod i wasanaethu.

Dysg i ni garu fel yr wyt Ti'n caru ac i gerdded gyda'n gilydd mewn undod a heddwch.

Gweddïwn dros y rhai sy'n teimlo fel ynysoedd unig heddiw. Bydd yn agos at y rhai sy'n cario galar, pryder, unigrwydd, poen neu ofn.

Gweddïwn y byddant yn teimlo dy gysur a'th bresenoldeb. Amgylchyna nhw â phobl a fydd yn eu cynnal a'u hannog.

Atgoffa nhw eu bod yn cael eu caru, eu gwerthfawrogi, ac nad ydynt byth wedi'u hanghofio.

Boed i'th dangnefedd dawelu pob calon gythryblus.

Yn enw Iesu Grist

**Amen**

# DARLLENIADUR

| Mis Mehefin | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Salm 33: 1-12 |
| Wythnos 2 | Salm 116:1-2,12-19 |
| Wythnos 3 | Salm 86:1-10,16-17 |
| Wythnos 4 | Salm 13 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**JULIA LEWIS**
**JOHN A CARYS GREEN**
**CAROLINE A REES JONES**
**GETHIN MORGAN JONES**
**ELERI MARKS**
**LEAH THOMAS**
**CAPEL BANCYFELIN**
**CAPEL CANA**

***at gyhoeddi'r Ddolen y mis hwn***

YN DYMUNO NODDI'R DDOLEN?
Cyswllt
PHILIP JONES (TRYSORYDD)
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu ei osod mewn amlen a'i ddychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei roi yn y blwch casglu.

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

# Y TUDALEN BLAEN

Ddeucan mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon, ar 18 Rhagfyr 1826 yn Clerkenwell, Middlesex y ganed John Ellerton. Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg y Brenin William, Ynys Manaw a Choleg y Drindod, Caergrawnt. Cymhwysodd ar gyfer yr Eglwys Sefydledig yn 1851 a gwasanaethodd mewn sawl plwyf, gan dreulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn Crewe Green yn Swydd Caer. Priododd Charlotte Alicia Hart, Brighton a chawsant wyth o blant. Bu farw yn Torquay 15 Mehefin 1893 yn 66 oed.



Mae'n adnabyddus fel emynyddwr, golygydd a chyfieithydd. Cyhoeddodd Hymns for Schools and Bible Classes yn 1859 a bu'n gyd-olygydd y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristnogol (SPCK). Cynorthwyodd i gasglu Church Hymns ac ysgrifennodd y llawlyfr ar ei gyfer - Notes and Illustrations of Church Hymns.

Cyfansoddodd a chyfieithodd tuag wyth deg o emynau ac mae llawer ohonynt yn cael eu canu hyd heddiw. Ymysg ei emynau mwyaf adnabyddus mae 'The day thou gavest, Lord is ended (1870).

Mae'r emyn hwn yn cael ei gysylltu'n aml ag angladdau a chafodd ei ganu yn angladd y Frenhines Elisabeth 11. Ond mewn gwirionedd emyn hwyrol yw e. Mae'r emyn yn canolbwyntio ar gymdeithas fyd-eang yr eglwys ac yn mynd ymlaen i gynnig gweddi a mawl i Dduw. Mae'r geiriau'n disgrifio sut y caiff gweddïau eu hoffrymu i Dduw yn gyson drwy bob awr o'r dydd mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae'r pennill olaf, a ddyfynnir ar y tudalen blaen, yn rhoi sicrwydd i ni y bydd Teyrnas Duw yn sefyll a thyfu am byth, hyd yn oed pan fydd ymerodraethau balch y ddaear yn mynd heibio. Caiff yr emyn ei ganu ar y dôn St Clement o eiddo'r Parchedig Clement C. Scholefield (1839-1904).

Robert David Roberts (1912-93), gŵr o Benisa'r Waun yng Ngwynedd gyfieithodd y fersiwn o'r emyn sydd yn Caneuon Ffydd (Rhif 45). Roedd yntau'n offeiriad gyda'r Eglwys Sefydledig ac yn fardd a

diddordeb mawr ganddo yn hanes a thraddodiad yr Eglwys.

Dyma’r emyn yn gyflawn:

| | |
|---|---|
| Y dydd a roddaist, Iôr, a giliodd,<br>ar dalwad di ymdaena’r hwyr,<br>ein cynnar gân i ti ddyrchafodd,<br>a’th fawl a rydd in orffwys llwyr. | Dros bob rhyw ynys a chyfandir,<br>yn gyson megis gwawr y dydd,<br>ei chan o fawl i ti a glywir,<br>ac nid oes baid ar weddi’r ffydd. |
| Diolchwn fod dy Eglwys effro<br>i’r ddaear ddu yn llusern dlos;<br>trwy’r cread maith mae hon yn gwylio<br>heb orffwys byth na dydd na nos. | Yr haul wrth beri i ni noswylio<br>sy’n deffro’n brodyr gylch y rhod,<br>i draethu dy ogoniant eto<br>a datgan dy ryfeddol glod. |
| Dy orsedd, Arglwydd Dduw, a bery<br>pan syrth gorseddau byd a’u bri;<br>fe saif dy deyrnas, a chynyddu<br>nes delo pawb i’w haddef hi. | |

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A’R CYLCH**

**NOS SUL, 27 MEDI 2026**
**AM 5 O’R GLOCH YR HWYR**
**CAPEL BABELL ZION NEWYDD, PENSARN, CAERFYRDDIN SA31 2DJ**

Arweinydd: Parchedig Wyn Maskell, Aberteifi
Organydd: Carole Rees,
Eitemau gan Gôr Meibion Caerfyrddin

Rihyrsals:
Nos Sul, 12 Gorffennaf am 5 o’r gloch yn Festri Y Tabernacl.
Arweinydd: Helen Gibbon. Cyfeilydd: Meredydd Edwards.

Nos Sul, 6 Medi am 5 o’r gloch yn Festri Y Priordy.
Arweinydd: Nicki Roderick. Cyfeilydd: Y Priordy.

Brif Rihyrsal – Nos Sul, 13 Medi am 5 yr hwyr yng Nghapel Babell Zion Newydd.
Arweinydd: Helen Gibbon. Organydd: Carole Rees.

***Rhaglenni’r Gymanfa ar gael gan Elisabeth Evans (E), Olga Williams (HA) a Huw Michael (P) - £3.50 yr un***

## BORE COFFI'R OFALAETH YN FESTRI HEOL AWST AR GYFER CRONFA'R DDOLEN - PAPUR MISOL YR OFALAETH

***Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r Bore Coffi. Cafwyd bore ardderchog a gwnaed elw o £1,031! Gwych***

























# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren "Y'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | Y bore biau'r --- |
| | |
| 2 | Y chwarae wedi mynd yn --- |
| | |
| 3 | Y gwir a --- |
| | |
| 4 | Y tamaid olaf yw'r --- |
| | |
| 5 | Ychydig yn aml a wna --- |
| | |
| 6 | Ymhob braint mae --- |
| | |
| 7 | Ymhob gwlad y megir --- |
| | |
| 8 | Yn araf deg mae mynd --- |
| | |
| 9 | Yr hyn ni wêl y llygad ni flina'r --- |
| | |
| 10 | Yr oen yn dysgu'r ddafad i --- |

Atebion ar Dudalen 18

**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**
**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

## Capel Bosjes, De Affrica



**Lleolir Capel Bosjes mewn gwinllan yn Ardal Witzenberg, Western Cape, De Affrica.**

**Dyluniwyd yr adeilad gan Coetzee Steyn, a aned yn Ne Affrica, o gwmni Steyn Studio, Llundain.**

**Ysbrydolwyd y strwythur gan y tirwedd cyfagos a delwedd Salm 36:7: Mor werthfawr yw dy gariad, O Dduw! Llochesa dynion dan gysgod dy adenydd.**

**Nid yn unig mae’r to tonnog yn adleisio’r tirlun ond hefyd mae’r diffyg meindwr yn cadw at draddodiad Morafiaidd y rhanbarth.**

**Cwblhawyd yr adeilad yn Rhagfyr 2016 ac agorodd ym mis Mawrth 2017.**

**Mae’n fan ar gyfer myfyrdod tawel a chyswllt ysbrydol i bobl o bob crefydd**

## Yng Ngibeon



Cynhaliwyd Oedfa Bwnc flynyddol Capeli Bancyfelin, Cana, Ffynnon-bedr a Gibeon brynhawn Sul 10 Mai. Tro Gibeon oedd croesawu a threfnu'r oedfa eleni. Thema'r oedfa oedd anifeiliaid y Beibl a chyflwynwyd darlleniadau o'r Beibl ac emynau gan y pedair Ysgol Sul; Arch Noa gan Ysgol Sul Gibeon, Y Golomen gan Ffynnon-bedr, Stori Jona gan Cana a Daniel y Ffau'r Llewod gan Bancyfelin. Cyflwynodd Beti-Wyn James (Gibeon) neges hyfryd i'r plant gan ganolbwyntio ar y morgrugyn, sy'n cydweithio; gwyddau sy'n cymryd eu tro i arwain, a'r Meerkat sy'n gwarchod eraill. Da oedd gweld llawr y capel yn llawn a'r plant a'r bobl ifanc i gyd ar eu gorau. Diolch i Meilyr, Macsen, Lilwen, Manon, Ava ac Annie am gynrychioli Cana ac Enlli ac Ellfi Bancyfelin. Yna hefyd yn cefnogi roedd Elis a Griff o Ysgol Sul Cana. Cafwyd oedfa lawen a bendithiol iawn. Yr organydd oedd Trefina Jones.

## Yn Elim



Cynhaliwyd Cymanfa Bwnc Elim fore Sul 17 Mai. Croesawyd aelodau eglwysi Bwlchnewydd a Chapel Cendy ynghyd â chyfeillion Heol Awst. Wedi'r rhannau arweiniol a gyflwynwyd yn arbennig gan blant a rheini'r Ysgol Sul, cyflwynodd y plant eu pwnc, sef hanes Joseff. Roedd hi'n amlwg eu bod wedi bod yn paratoi'n drylwyr yn yr Ysgol Sul gan eu bod wedi llwyddo i ateb pob


cwestiyn a ofynnwyd iddynt gan Beti-Wyn! Hyfrydwch oedd edrych ar eu gwaith celf hefyd, a phob darlun o Joseff yn gwisgo cot amryliw. Roedd addasiad o'r gân Lliwiau'r Enfys i liwio cot Joseff yn ddiweddglo ardderchog i'w cyflwyniad.





Wedi i'r plant adael y capel tro'r oedolion oedd darllen y bennod a cheisio ateb cwestiynau'r holwr, Alun Lenny am hanes yr Ynfytyn Cyfoethog. Diolch i Alun am ddod atom i holi ac i John Evans am ein harwain yn yr ymarferion canu. Dyma draddodiad sydd yn sicr angen ei ddiogelu i'r dyfodol. Diolch i bawb a gymerodd ran ac am yr holl waith paratoi o flaen llaw.

**EISIAU GWYBOD MWY AM GYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN? TROWCH AT: CYFUNDEB.COM**



## CYRDDAU PREGETHU

Cynhaliwyd Cwrdd Pregethu Blynyddol Capel Cana, Bancyfelin nos Fercher 13 Mai a daeth cwmni da ynghyd i wrando ar Y Parchg Emyr Williams yn rhannu'r Gair ac yn ein hatgoffa am flaenoriaethau bywyd. Cafwyd oedfa fendithiol iawn dan ei arweiniad a mwynhawyd swper hyfryd yn y festri wedi'r oedfa.





Y Parchedig Aled Gwyn oedd y pregethwr gwadd Cyrddau Hanner Blynyddol Capel Heol Awst. Cafwyd oedfa fendithiol dan ei arweiniad.



Cynhaliwyd Cwrdd Pregethu Blynyddol Capel Bancyfelin nos Iau 21 Mai a daeth cwmni da ynghyd i wrando ar Y Parchg Rhys



Lock yn pregethu ary thema 'Iesu y Bugain Da'. Cafwyd oedfa fendithiol iawn dan ei arweiniad a mwynhawyd swper hyfryd yn y frestri



**Llongyfarchiadau i Olga Williams (HA) am dderbyn tystysgrif gan Cyngor Tref Caerfyrddin am ei chyfraniad i fywyd diwylliannol y gymuned dros nifer fawr o flynyddoedd**




**Pleser i'n Gweinidog oedd cael dymuno'n dda o Enid Evans (P) ar achlysur ei phen-blweydd yn 90 oed a chyflwyno rhodd iddi ar ran yr aelodau.**



# SUL Y MAER YN Y PRIORDY












**Nia Lewis…**



## Oedfa Sul y Maer yn y Priordy

***BRAF*** oedd gweld cynulleidfa niferus yn y capel ar Sul y Maer. Croesawodd y Gweinidog, sydd hefyd yn gaplan i'r maer (rydym wedi colli cyfri ar sawl gwaith y mae wedi dal y swydd hon!!) bawb i'r oedfa.

Roedd band y Priordy wrth y llyw i arwain y canu. Diolch i Dafydd (Hermon) am ddod i gynorthwyo wrth y drymiau gan fod ein drymiwr arferol yn brysur yn astudio ar gyfer arholiadau pwysig ar hyn o bryd. Pob lwc i bob un sydd yn ei chanol hi.

Cyflwynwyd y weddi gyntaf gan Greta Marged ac yna cyhoeddwyd yr emyn gan Greta a Miriam.

Ar ôl i'r maer ddarllen y Ganfed Salm, roedd hi'n amser i'r Carmarthen Journal gael ychydig o sylw. Cadi ac Ifan oedd yn ein harwain ni drwy gloriau'r papur a mae'n amlwg bod y ddau yma wedi mwynhau dod o hyd i ambell i stori fawr a bach o "glecs" y dre'! Y newyddion mawr i ni oedd bod ein Glenys ni, sef Glenys Thomas, yn cael ei hurddo i'r Orsedd eleni yn Eisteddfod y Garreg Las- haeddiannol iawn. Sylwodd y ddau hefyd bod sawl un o'r Priordy wedi rhedeg yn ras y maer… ond doedd dim sôn am Beti-Wyn ac Alun Charles ar y llinell derfyn… blwyddyn nesa' amdani felly!! Y pwt bach olaf o newyddion oedd ganddynt oedd hanes urddo'r maer newydd mewn seremoni arbennig- pob hwyl i Russell Sparks wrth iddo ddechrau ar flwyddyn brysur yn gwasanaethu'r dref.

Cadi Wyn a Martha Nel fu'n darllen am hanes Iesu a'r pysgotwyr i ni. Cafwyd dwy gân hyfryd gan blant yr Ysgol Sul cyn i Cadi, Alys a Mali ein harwain mewn gweddi. Cyflwynodd Ilan rodd i'r maer ar ein rhan. Hedd oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r emyn nesaf, sef "Ceisiwch yn Gyntaf…' a dyna hwyl a gawsom wrth ei chanu fel tôn gron.

Cafwyd neges bwrpasol gan ein Gweinidog yn sôn am bwysigrwydd y cwrwgl bach sydd i'w weld ar yr afon Tywi yn achlysurol- roedd y plant (a'r oedolion) wrth eu boddau yn gweld cwrwgl go iawn yn y sedd fawr! Mae'r traddodiad o bysgota gyda rhwyd o'r cwrwgl yn hen. Er bod y cwrwgl yn fach o ran maint, mae'n gwneud gwaith pwysig.Yn ôl Beti-Wyn, mae angen cyd-bwysedd wrth eistedd mewn cwrwgl. Mae angen

i ni hefyd gael y balans yn iawn trwy weithio neu chwarae, gan gofio hefyd ei bod hi'n bwysig gorffwys. Mae'r afon yn medru llifo yn gyflym, ond wrth i ni wynebu stormydd bywyd, mae Iesu yno i'n helpu i gadw yn saff ar afon bywyd.

Ac i gloi dyma Weddi'r Cwrwgl:

**Arglwydd Iesu, arwain ni ar afon hyd bywyd. Helpa ni i ymddiried ynot Ti pan fo'r dŵr yn dawel a phan ddaw stormydd i'n rhan. Helpa ni i gadw cydbwysedd yn ein bywydau. Arwain ni'n ddiogel i ble bynnag yr wyt yn ein galw i fynd.**
**Amen.**

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Cyfres o chwe sesiwn yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd yr eglwys.

Cyfarfodydd ar nos Fawrth am 7:00

| | | |
|---|---|---|
| 05/05 | Gweinyddu Eglwys | Ifan Alun Puw |
| 12/05 | Cynnal Cyfarfod Eglwys | Parchg Ddr Alun Tudur |
| 19/05 | Beth yw Diacon? | Parchg Beti-Wyn James |
| 02/06 | Cynllunio'n Cenhadaeth | Gwilym Jeffs |
| 09/06 | Gweinyddu'r Sacramentau | Parchg Carwyn Siddall |
| 16/06 | Timoedd yn arwain yr eglwys | Dan arweiniad aelodau Peniel a Bwlchycorn |

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â carwyn@annibynwyr.cymru


**Eich hwb lleol chi ydi:**

**BETHLEHEM NEWYDD, PWLL-TRAP**

# COFIO GAUDI

**Bydd amryw ohonoch wedi treulio amser yn Barcelona ac ymweld â'r eglwys enfawr, Sagrada Familia. Daeth i'w hadnabod fel *Basílica i Temple Expiatori de la Sagrada Família* yn 1883. Dechreuwyd adeiladu'r basilica ar 19 Mawrth 1882 a chymerodd Antoni Gaudí drosodd fel prif bensaer y flwyddyn ganlynol ar ôl ymddiswyddiad y pensaer gwreiddiol, Francisco de Paula del Villar. Ymroddodd Gaudí weddill ei fywyd i gwblhau'r gwaith. Cafodd ei chysegru fel basilica lleiaf gan y Pab Benedict XV1 yn 2010.**





**Mae eleni'n flwyddyn fawr o ddathlu yn hanes yr eglwys a'i phensaer Gaudi. Nid yn unig y bydd dathliadau'r Sagrada Família yn 2026 yn anrhydeddu etifeddiaeth Gaudí ond hefyd yn nodi camau sylweddol ym mhrosiect adeiladu'r basilica.**

**Un o uchafbwyntiau'r dathliadau fydd agoriad swyddogol Tŵr Iesu Grist. Mae cwblhau'r tŵr eglwys hwn - yr uchaf yn y byd - yn garreg filltir nodedig yn hanes codi'r basilica. Mae'r agoriad swyddogol wedi'i drefnu ar gyfer 10 Mehefin 2026, i gydfynd â chanmlwyddiant marwolaeth Gaudí. Bydd yr seremoni dan ofal y Pab Leo XIV. Mae'r tŵr yn cyrraedd uchder o 172.5 metr gyda'r groes wedi'i gosod yn llawn.**

**Ganwyd Gaudí ar 25 Mehefin 1852, yn Reus, Catalonia, Sbaen. Roedd e'n caru natur ac yn treulio llawer o amser y tu allan, a hynny'n ysbrydoli'i ddyluniadau. Ei waith mwyaf enwog yw'r eglwys Sagrada Família yn Barcelona sydd dal yn cael ei hadeiladu heddiw!. Mae adeiladau Gaudí yn edrych fel pe baent wedi'u gwneud o ffurfiau naturiol, gyda llawer o linellau crymion a theils lliwgar. Roedd e'n aml yn defnyddio siapiau a ysbrydolwyd gan blanhigion ac anifeiliaid, gan wneud ei waith yn wahanol**

iawn i adeiladau traddodiadol. Mae saith o weithiau Gaudí wedi cael eu henwi'n Safleoedd Treftadaeth y Byd gan UNESCO, sy'n golygu eu bod yn cael eu cydnabod fel safleoedd diwylliant pwysig ledled y byd. Roedd Gaudí yn llysieuwr ac yn credu mewn bwyta'n iach. Yn aml roedd yn bwyta bwydydd syml fel letys a cnau. Neilltuwyd rhan fwyaf o fywyd Gaudí i'w waith, yn enwedig y Sagrada Família. Casglodd roddion hyd yn oed i helpu i gyllido'r adeiladu. Bu farw Gaudí ar 10 Mehefin 1926, sef can mlynedd yn ôl i'r mis hwn, ar ôl cael ei daro gan dram. Yn anffodus, ni chafodd ei adnabod ar unwaith gan iddo edrych fel cardotyn oherwydd ei ddillad hen ffasiwn. Roedd pobl yn aml yn ei alw'n "Bensaer Duw" oherwydd ei ffydd Gatholig gref a'r symbolau crefyddol yn ei waith,





Mae bywyd a gweithiau Antoni Gaudí yn destament i'w dalent a'i weledigaeth eithriadol. Mae ei weithiau, megis Park Güell, Casa Batlló, Casa Milà a'r Sagrada Familia sydd eto i'w gwblhau, wedi gadael marc annileadwy ar Barcelona a'r byd. Mae ei etifeddiaeth yn parhau i ysbrydoli penseiri a dylunwyr ledled y byd.

## ATEBION Y CWIS - Mis Mehefin

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | dydd | 6 | dyletswydd |
| 2 | chwerw | 7 | glew |
| 3 | saif | 8 | ymhell |
| 4 | gorau | 9 | galon |
| 5 | lawer | 10 | bori |

## Ras y Maer 2026

Llongyfarchiadau i BAWB a fu'n cystadlu yn Ras y Maer eleni. Llongyfarchiadau arbennig i Martha Nel (P), Griff John (C) a Miriam Williams (P) am ddod yn gyntaf yn eu categorïau oed










# Ifanc@Gofalaeth




## Angen cofrestru erbyn 14 Mehefin

### 'Sgen ti funud? Stori mewn munud

**Iesu'n Tawelu'r Storm**



Un diwrnod dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Gadewch i ni groesi'r llyn." Cytunodd y disgyblion a dyma nhw'n croesi'r llyn mewn cwch. Syrthiodd Iesu i gysgu wrth iddynt groesi gan fod y dŵr yn llonydd. Yn sydyn dyma storm yn cychwyn ac roedd y cwch yn llenwi â dŵr ac roedden nhw mewn peryg o suddo. Aeth y disgyblion at Iesu a gweiddi arno, "Deffra! Rydyn ni'n boddi. Rhaid i ti ein hachub ni." Cododd Iesu ar ei draed a dywedodd wrth y storm i stopio. Stopiodd y storm yn sydyn ac roedd popeth yn dawel eto. Gofynnodd Iesu i'r disgyblion, "Pam oeddech chi â chymaint o ofn? Mae Duw yn edrych ar eich holau."Roedd y disgyblion wedi rhyfeddu a dywedon nhw, "Pwy ydy hwn? Mae hyd yn oed y gwynt a'r tonnau'n uffudhau iddo!"

Da iawn i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd! Gormod ohonoch i'w henwi, rhag i ni adael rhywun allan! Ardderchog bawb!

## Chwilotair. Dywedodd Iesu 'Myfi Yw'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | W | R | N | N | G | Y | Y | I | R | A | F | L | F |
| A | L | G | N | D | O | G | W | W | G | F | F | E | R |
| L | W | I | A | A | I | Y | A | D | G | G | O | N | N |
| B | Y | G | F | I | W | U | D | B | E | W | R | D | I |
| W | M | A | G | D | F | W | R | B | Y | W | D | D | B |
| L | Y | F | W | O | U | F | W | B | U | W | D | G | A |
| W | F | D | I | F | L | F | S | Y | D | G | Y | W | R |
| W | I | D | R | Y | I | Y | G | F | Y | E | A | D | A |
| A | Y | A | I | G | S | E | G | G | D | N | D | I | D |
| F | W | W | O | T | U | A | A | F | Y | L | R | W | L |
| N | F | D | N | A | G | O | L | E | U | N | I | I | W |
| D | W | F | E | A | Y | U | A | D | I | Y | D | I | R |
| G | D | O | D | W | R | E | R | I | W | D | R | I | B |
| O | F | A | D | N | E | D | D | Y | W | N | I | W | M |

ATGYFODIAD
GOLEUNI
WINWYDDEN
MYFIYW
DRWS
BUGAIL
FFORDD
GWIRIONEDD
BYWYD
BARA





Hwyl am y tro

*Beti-Wyn*





**Fel rhan o thema'r tymor 'Milltir Sgwar' pleser oedd croesawu disgyblion Blynyddoedd 1 a 2 Ysgol y Dderwen i Gapel Y Priordy i ddysgu am yr adeilad a thystiolaeth yr eglwys**






## GWASANAETH ARBENNIG AR NOS SUL Y PENTECOST

### *Gweler y Rhwydwaith*



**Y Samariaid yng Nghymru: Ffoniwch 116 123**
**Tir Dewi: Ffoniwch 0800 121 4722**
**Anxiety UK: Ffoniwch 03444 775774**
**CALM: Ffoniwch0800 585858**
**Mind: Ffoniwch 0300 123 3393**
**No Panic: Ffoniwch 0844 967 4848**
**Bereavement: Ffoniwch 0800 068 4141**
**Abuse: Ffoniwch 0808 2000 5000**
**Refuge:Ffoniwch 0808 200 0247**
**DPJ, Rhannwch Y Baich – 0800 587 4262**
**neu'r linell neges destun – 07860 048 799**

## Podlediad Yr Ofalaeth

*Gwrandewch arno ni ar:*

**Spotify:**
**https://open.spotify.com/show/6NM0ieGztlimmraEMzw9xC**

**ApplePodcasts:**
**https://podcasts.apple.com/us/podcast/oedfaoedd-beti-wyn/id1612830856?uo=4**


**Spreaker:**
**https://www.spreaker.com/show/oedfa-gan-beti-wyn-1**
**iHeartRadio: https://iheart.com/podcast/93688407**

**Deezer:**
**https://www.deezer.com/show/347206**

**Yn cynnwys holl oedfaon digidol,**
**Papur yr Ofalaeth a chyfweliadau**

# COFIO ANN GRIFFITHS YN Y GYMDEITHAS





**Cofio Ann Griffiths**



Roedd festri Heol Awst yn llawn i'r ymylon a mwy brynhawn Mawrth 19 Mai ar gyfer cyfarfod Y Gymdeithas. Hyfry dwch oedd croesawu'r Athro Wyn James a'i briod Christine atom. Mae Wyn yn ysgolhaig amlwg ac yn un sydd wedi cyhoeddi,darlithio a darllendu'n helaeth ar wahanol agweddau ar lên a diwylliant Cymru yn y cyfnod moderm o'r 16eg ganrif hyd heddiw. Enillodd ddoethuriaeth yn 1998 am ei ymchwil ar emynau Ann Grffiths. Priodol iawn felly oedd ein bod wedi ei wahodd atom i'n hannerch yn ystod blwyddyn cofio 250 ers geni'r emynydd o Ddolwar Fach.

Mae Wyn yn amlwg yn feistr yn ei faes a thraddododd yn huawdl am fywyd byr Ann Griffiths, a'r gwaddol o emynau a adawyd ar ei hôl drwy weledigaeth ei morwyn Ruth Evans a'i phriod John Hughes ynghyd â Thomas Charles.


Canolbwyntiodd Wyn yn benodol ar dri emyn o'i gwaith gan ein harwain i feddwl am y cyfeiriadau Beiblaidd, y ddiwinyddiaeth a'r rhyfeddod a oedd yn perthyn iddynt. Canodd Heledd Gibbon y tri emyn yn hyfryd rhwng cyflwyniadau Wyn i gyfeiliant dawnus Heather Williams, sef *'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd'* o Sioe Gerdd 'Ann' gan Gwmni Theatr Maldwyn, *'Gwna fi fel pren planedig o fy Nuw'* a '*Rhyfedd, rhyfedd gân angylion'* yn ddi-gyfeiliant yn nhraddodiad y Blygain.

Bu'n prynhawn cofiadwy iawn a phobl wedi teithio o bell i ymuno â ni. Diolch yn fawr iawn i Wyn James, Helen Gibbon a Heather Williams am yr holl waith paratoi ac am gyflwyno prynhawn arbennig iawn.

Diolch i Olga Williams am drefnu, ac i gyfeillion Heol Awst am eu croeso arferol a'r baned dderbyniol wrth i bawb gymdeithasu ar ddiwedd y prynhawn.

Fe fydd pawb a oedd yn bresennol yn sicr yn edrych ar eiriau Ann Griffiths mewn goleuni newydd o hyn ymlaen.

# DATHLU YN HEOL AWST











Daeth cynulleidfa dda ynghyd i festri Heol Awst ar brynhawn Sul, 24 Mai, sef Sul y Pentecost, i ddathlu trichanmlwyddiant y capel presennol. Cafwyd oedfa fer gan ein Gweinidog, yn cynnwys ffilm yn cyflwyno ychydig o hanes Heol Awst (diolch i Joan Thomas am yr hanes), cyn i bawb fwynhau te hyfryd o amgylch y byrddau. Paratowyd cacen fendigedig i ddathlu'r achlysur, ac rydym yn hynod ddiolchgar i Eirig Davies, un o aelodau ffyddlon Heol Awst, am drefnu'r gacen, a'i chyflwyno'n rhodd i'r eglwys .Gwahoddwyd aelod hynaf yr eglwys, Mr Bryn Enoch, i dorri'r gacen, cyn i bawb fwynhau te parti gwerth ei gofio o amgylch y byrddau. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n rhan o drefniadau'r diwrnod, a phen-blwydd hapus iawn i Heol Awst. Ymlaen â ni i'r dyfodol!



## CYNGERDD YN Y PRIORDY



Cynhaliwyd cyngerdd arbennig yng Nghapel Y Priordy nos Sadwrn, 23 Mai yng nghwmni Côr Tonic, Côr Meibion Dwyfor ac Owain Rowlands, gyda Brian Walters yn llywio'r noson a Brian Jones yn llywydd. Codwyd swm da o arian i Uned Cemotherapi Ysbyty Glangwili

## NEWYDDION CYMORTH CRISTNOGOL

- Brian Slate (Eglwys yr Annibynwyr Saesneg) yw Cadeirydd newydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol y Dref gyda Joan Thomas (HA) a Heather Jones (Eglwys Llangynnwr) yn gyd-ysgrifenyddion.
- Gwnaed elw da o £800 ym more coffi mis Mai.
- Bydd Swper i nodi 80 mlynedd Cymorth Cristnogol yn cael ei gynnal yng Nghlwb y Cwins, Nos Wener, 19 Mehefin 6.00 ar gyfer 6.30. Tocyn yn £15 ar gael oddi wrth gynrychiolwyr yr eglwysi.
- Cynhelir Bore Coffi nesaf Cymorth Cristnogol  Ddydd Sadwrn, 28 Tachwedd. Lleoliad i'w gadarnhau.

## CROESO I AELODAU NEWYDD

| | |
|---|---|
|  |  |
| **Dylan Williams**<br><br>**Elim** | **Lowri Siôn**<br><br>**Cana** |

***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

## DIOLCH YN FAWR!

| | |
|---|---|
|  | **Diolch i Malcolm a Julie Rees o Ganolfan Cwryglau Caerfyrddin am gael benthyg cwrwgl ar gyfer yr Oedfa Deulu ar Sul y Maer yn Y Priordy!** |

### Ysgol Sul y Priordy'n dysgu am Daniel yn Ffau'r Llewod




Oedfa
Cartref Glyn Nest
Castellnewydd Emlyn
Prynhawn Llun,
8 Mehefin am
2 o'r gloch
yng nghwmni'r
Parchg Beti-Wyn James
a chyfeillion yr ofalaeth
Croeso i bawb


Cartref Plas Y Dderwen
Gwasanaeth Haf
Summer Servcie
Gwener, 3 Gorffennaf
Friday, 3 July
am/at 2.30yp/pm
gyda/with
Parchg /Rev'd Beti-Wyn James
ac eraill
CROESO I BAWB - ALL WELCOME

Capeli Cana a Bancyfelin

yn

# Bowlio Deg

a Swper yn y Fox & Hounds

Nos Wener,

12 Mehefin am 6 o'r gloch

Mwy o fanylion i ddilyn






**Bydd Stondin gan yr**

**Ofalaeth yno**

**CASGLIAD AT Y GENHADAETH – Y PRIORDY**

Gwneir ein casgliad blynyddol at y Genhadaeth **ar Ddydd Sul 14 Mehefin 2026**. Gofynnir yn garedig i chi ddodi'ch rhodd mewn amlen a nodi'ch enw a'ch rhif ar flaen yr amlen, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

## Y ddiweddar Nancy Scourfield (HA)



Gyda thristwch y clywsom am golli Nancy a du farw'n dawel ar 10 Ebrill 2026 yng Nghartref Gofal Castell Tywi.

Yn enedigol o Login, ac wedi derbyn ei haddysg yn lleol, cychwynnodd Nancy ar yrfa lwyddiannus ym myd nyrsio. Bu'n gweithio yn Ysbyty Heol Y Prior, yn y Cytiau Nissen yn Nglangwili cyn symud i Ludain i dderbyn hyfforddiant arbenigol ar nyrsio llygaid. Dychwelodd i Ysbyty Glangwili ac fe'i hapwyntiwyd yn Brif Nyrs ar y wardiau. Roedd gofal am eriall yn rhan o'i hanian a hyd yn oed ar ôl ymddeol bu'n gweithio fel nyrs mewn nifer o Gartrefi Gofal drwy asiantaeth gan gynnwys cyfnod yng Ngartref Blaenos, Llanymddyfri.

Bu hi a'i diweddar ŵr Alwyn yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Heol Awst, a'i hunig fab, Anthony wedi'i fagu yn yr eglwys hefyd.

Roedd Nancy yn berson caredig ac yn un a ddangosodd dosturi at eraill, ac yn barod iawn ei chymwynas i helpu ffrindiau a theulu ym mhob ffordd.

Symudodd Anthony i fyw at ei rieni yn Abergwili, a bu'n fawr ei ofal o'i fam ar hyd y blynyddoedd diwethaf. Derbyniodd Nancy ofal arbennig yng Nghartref Castell Tywi hefyd a diolch yn fawr iawn i aelodau Heol Awst sydd wedi bod yn ymweld yn ffyddlon â hi dros y blynyddoedd.

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i Amlosgfa Arberth, ddydd Iau 7 Mai i oedfa o ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Roedd yr oedfa yng ngofal ei Gweinidog gyda chymorth y Parchedig Aled Williams, perthynas i'r teulu.

Rhoddir ei llwch i oswedd mae o lawr ym mynwent Capel Bethel, Meidrim gyda'i diweddar ŵr Alwyn.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Anthony a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

*'Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth'*

**Ein Gweinidog**

**Y ddiweddar Mair Loader (HA)**

Yn dawel ar 24 Ebrill 2026 hunodd Mair Loader yng Nghartref Gofal Erw Hir, Caerfyrddin.



Treuliodd Mair flynyddoedd cyntaf ei bywyd yn Llandysul cyn symud i Rose Cottage, Peniel, a bu'r teulu'n aelodau ffyddlon yng Nghapel Y Presbyteriaid yn Rhydargaeau.

Bu Mair yn gweithio am gyfnod mewn swyddfa yswiriant (ble cyfarfu â Maurice) ac yn ddiweddarach yn Ysbyty Mynydd Mawr a'r Plas yn Llanelli ble bu'n gymwynasgar iawn i bawb a ddaeth ar eu traws ac yn ofalus ohonynt.

Ond cofir amdani'n bennaf am ei chefnogaeth lwyr i weinidogaeth ei phriod annwyl, y diweddar Barchg Maurice Loader.  Bu'n wraig gweinidog ymroddgar a'i chyfraniad i fywyd yr eglwysi y bu Maurice yn weinidog ffyddlon arnynt yn fawr a diffuant iawn – Hermon, Brynaman, Bethesda Llangennech, Capel Als, Llanelli a Seion Porth Tywyn. Bu hefyd wrth ei ochr yn ystod ei gyfnod fel Athro yn y Coleg Coffa, Abertawe.

Daeth cynulleidfa niferus i Amlosgfa Llanelli b'nawn Llun 18 Mai ar gyfer oedfa i ddiolch am ei bywyd.

Gwasanaethwyd gan ei gweinidog gyda chymorth Y Parchgn. John Pritchard, Llewelyn Picton Jones a Dyfrig Rees. Rhoddir ei llwch i orffwys maes o law ym mynwent Bethesda, Llangennech ym medd ei phriod annwyl.

Roedd Mair yn meddwl y byd o'i theulu a'i theulu yn meddwl y byd ohoni hi.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Meinir, Aled a Mair, Gwyn a Gwawr a'u teuluoedd ynghyd â'r cysylltiadau teulu eraill i gyd.

*A garwyd mewn bywyd, a drysorir mewn cof*

**Ein Gweinidog**

## DYLETSWYDDAU MEHEFIN



**BANCYFELIN**
Cadw'r mis:  Veronica Evans
Cyhoeddwr: Trefina Jones
Organydd: Carwen Howells
Blodau:
    Mehefin 7 – Veronica Evans
    Mehefin 28 – Delme Thomas
Ymwelwyr: Anne a Lyn Jones

**CANA**
Gofalwr y mis: Howard James
Cyhoeddwr: Marlene Jones
Organydd: Mair Jones
Blodau: Mehefin 14 – Mair Jenkins
Ymwelwyr: Edward a Marlene Jones

**ELIM**
Cyhoeddwr: Brian Walters
Blodau: Rhian Morgan
Gosod y Bwrdd Cymun:  Natalie Evans
Ymwelwyr: yr aelodau

**HEOL AWST**
Cyhoeddwr: Nigel George
Ymwelwyr:  Gweinidog
Cyfeilydd: Mehefin 14 - Olga Williams
Dyletswyddau'r Sul: Hywel a Janet Evans

**Y PRIORDY**
Gofalwr: Gareth Gravell
Cyhoeddwr: Luned Thomas
Gosod y Bwrdd Cymun: Betsan James a Rachel Davies

Darllenwyr:

Mehefin 7- Delyth Gwawr Davies
Mehefin 14 – Y Tadau
Mehefin 21 - Pererindod
Mehefin 28 – Adrian Evans

Ymwelwyr: Mai / Mehefin:

Gwynfor a Janer Davies
Adrian a Gloria Evans
Dennis a Rhian Jones

Blodau:

Mehefin 7: Harry Evans
Mehefin14: Harry Evans
Mehefin 21: Pererindod
Mehefin 28: Margaret Evans

| **CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH** | | | |
|---|---|---|---|
| **BANCYFELIN** | **Nos Fawrth 30 Mehefin** | **7.30** | **Y Festri** |
| **CANA** | **Prynhawn Iau 11 Mehefin** | **1.30** | **Y Festri** |
| **ELIM** | **Bore Mercher 3 Mehefin** | **11.00** | **Y Capel** |
| **HEOL AWST** | **Prynhawn Mercher 3 Mehefin** | **2.00** | **Y Festri** |
| **Y PRIORDY** | **Nos Lun 1 Mehefin** | **7.00** | **Y Festri** |

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau’r mis hwn



EIN cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Emyr Wyn Thomas (C), Eirlys Jones (P), Carys Lewis (HA), Aled Jones (E), Alison Price (E) a Gill Owens (P). Dymuniadau gorau hefyd i Lyn Jenkins, (HA) sydd yng Nglyn Nest, Castellnewydd Emlyn ar hyn o bryd. Cofion annwyl atoch i gyd.

Mae'n dymor yr arholiadau a bu Miriam Williams (P) a Beca Elfyn (P) yn siarad ar Radio Cymru am y newid yn y cyrsiau TGAU. Cafodd Dave Thomas a'i fab Aled Thomas (HA) eu clywed ar y gyfryngau yn rhoi cyfweliad o Bentywyn pan ddaeth 'Babs' y car rasio yn ôl i'r traeth.

Bu Dr Llinos Roberts (P) yn trafod ei hoff ffilm, llyfr a chân Gymraeg yn O Law i Law ar Raglen Heledd Cynwal ar Radio Cymru. Bu hefyd yn trafod dyfodol meddygaeth ar Newyddion S4C o ganlyniad i'r Etholiad. Roedd Dr Myfanwy (P) ar un o'r paneli a fu'n seiadu ynghylch Etholiad y Senedd ar S4C yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Mentrau Cymru ac yn datgan ei gobeithion ynghylch y Gymraeg.

Bu Brian Walters (E) ar Troi'r Tir ar Radio Cymru yn trafod y newyddion diweddaraf am y byd amaeth yn y Wasg.

Pob dymuniad da i Huw Jenkins (C) yn ei gartref newydd yn Heddfan, Tavarnspite.

Bu'n Gweinidog, ynghyd ag Esgob Tyddewi Dorrien Davies a'r Archesgob Mark O'Toole yn annerch mewn gwasanaeth eciwmenaidd arbennig ar Sul y Pentecost yn Neuadd Ddinesig San Pedr.

Doedd hi ddim syndod clywed bod Peter Hughes Griffiths wedi ennill ar gyfansoddi Cerdd Ddigri yn Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch, yn enwedig ar ôl yr hwyl a gawsom yn gwrando arno yn Nhalwrn y Daffodil. Da iawn!

**Llongyfarchiadau mawr i:**

- **Gwyneth a Bryan Stephens (B) ar ddathlu eu priodas aur yn ystod mis Mai.**
- **Freda Thomas (HA) ar ddod yn hen fam-gu i'w gorwyres fach newydd Adelaine Mabel Ramey.**
- **Llŷr Huws Gruffydd, un o blant Y Priordy, mab Peter a Meinir a brawd Meleri, sydd wedi'i benodi'n Weinidog dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd yng Ngabinet newydd Llywodraeth Cymru. Pob dymuniad da iddo.**
- **Glenys Thomas (P) a fydd yn cael ei hurddo i'r Orsedd yn Eisteddfod y Garreg Las eleni. Hefyd i Mari Grug (B) ac i Wynfford James, priod Menna Elfyn (P). Da iawn wir a diolch i bob un ohonoch am eich holl waith.**

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf / Awst i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r canlynol sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Trefina Jones (B) ar farwolaeth ei modryb Brenda Williams, Llambed.**

**Anne Jones (B) ar farwolaeth ei hewythr, Tom Thomas, Gwernogle.**

**Meddyliwn amdanoch oll yn eich colled a'ch hiraeth.**

**YMDDIRIEDOLWYR NEWYDD HEOL AWST**

Yn dilyn etholiad diweddar, llongyfarchiadau mawr i Hywel Evans, Nigel George, Ernest Jones, Jeff Thomas ac Olga Williams ar eu hethol yn Ymddiriedolwyr i'r eglwys. Pob bendith yn y gwaith.

# SULIADUR MEHEFIN 2026

| DYDDIAD | 10.00 | 11.30 | 1.30 | 3.00 | 4.00 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mehefin 7** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | Bancyfelin©<br>Gweinidog | | |
| **Mehefin 14** | Priordy<br>Oedfa Deulu<br>Gweinidog | | Cana ©<br>Gweinidog | Heol Awst ©(+E)<br>Gweinidog | |
| **Mehefin 21** | Pererindod yr<br>Ofalaeth | | | | |
| **Mehefin 28** | Priordy<br>Undebol<br>(E, HA & P)<br>Carwyn Siddal | | Bancyfelin (+C)<br>Carwyn Siddal | | Oedfa<br>Hirddydd Haf<br>Parc y Dref |
| | | | | | |
| **Gorffennaf 5** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | Cana ©<br>Gweinidog | | |

## Amserlen yr Ysgolion Sul – Mehefin / Gorffennaf 2026

| Cana | Y Priordy |
|---|---|
| 3 Mehefin: Ysgol Sul<br>14 Mehefin: Dim Ysgol Sul<br>21 Mehefin: Dim Ysgol Sul<br>28 Mehefin – Ysgol Sul<br>5 Gorffennaf – Picnic a Chwaraeon<br>12 Gorffennaf – Ymuno â'r Sul Sbesial (1.30pm)<br><br>**Elim**<br><br>Mehefin – Dim Ysgol Sul drwy'r mis<br>12 Gorffennaf - Ymuno â'r Sul Sbesial (1.30pm) | 7 Mehefin:Ysgol Sul<br>14 Mehefin: Oedfa Deulu – Sul y Tadau (cynnar)<br>21 Mehefin: Dim Ysgol Sul<br>28 Mehefin: Ysgol Sul a PIP<br>5 Gorffennaf: Parti Diwedd Tymor<br>12 Gorffennaf: Ymuno â'r Sul Sbesial (1.30pm<br><br> |



## PANED A SGWRS



**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**BORE MERCHER, 10 MEHEFIN 2026 – 10.30**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**Croeso cynnes i bawb**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN**
**CWRDD CHWARTER**



**Dydd Iau 10 Medi 2026**

**Capel Hermon, Cynwyl Elfed, SA33 6SR**

**Y Gynhadledd am 4.00 / Cyfarfod yr Hwyr am 7**

**Croesawu cynrychiolwyr o 'r Tabernacl, Efail Isaf, yn yr hwyr i siarad am y newidiadau y maen nhw wedi'u gwneud yn yr eglwys**

**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**
**CYFARFODYDD BLYNYDDOL**
**Gorllewin Morgannwg**

# Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL

24-26 Mehefin 2026
Gwesty'r Towers, Abertawe SA10 6JL

| | |
|---|---|
| 24 MEHEFIN / 1:30 | CYNHADLEDD 1<br>Dan ofal y Llywydd, Owain Llŷr Evans |
| 24 MEHEFIN / 3:30 | CYFLWYNIAD YR ARDAL LEOL<br>Yng nghwmni'r Athro Prys Morgan |
| 24 MEHEFIN / 5:00 | Y RHWYDWAITH HEDDWCH<br>Siaradwr gwadd: Mererid Hopwood |
| 24 MEHEFIN / 7:30 | CYNGERDD ABERTAWE: DINAS NODDFA<br>Tabernacl, Treforys. SA6 8BR |
| 25 MEHEFIN / 4:30 | CYFARFOD HANES<br>Siaradwr gwadd: Tudur Dylan Jones |
| 25 MEHEFIN / 7:30 | OEDFA O FAWL<br>Capel y Nant, Clydach. SA6 5HB |
| 26 MEHEFIN / 9:30 | DEFOSIWN<br>Cyfundeb Gorllewin Morgannwg |
| 26 MEHEFIN / 10:00 | Y RHWYDWAITH MERCHED<br>Lansio ymgyrch Glandeg |
| 26 MEHEFIN / 12:00 | OEDFA'R LLYWYDD |

FFRWD FYW: annibynwyr.cymru

**En Gweinidog sy'n arwain y myfyrdodau Beiblaidd yn yr Undeb eleni**